

The logo consists of a red trapezoidal shape. Inside, the text 'WcVA' is written in white, bold, sans-serif font. A thin white horizontal line is positioned below 'WcVA', and the text 'CgGC' is written in the same white, bold, sans-serif font below the line.

WcVA
CgGC

Cynllun Grant Gwirfoddoli Cymru – dyfarniadau grant strategol

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Cais am grant
Age Cymru	Bydd chwech o bartneriaid Age Cymru yn datblygu/gweithredu ac yn gwerthuso model gwirfoddoli gan ddefnyddio'r Ddamcaniaeth Newid i gynyddu gweithrediadau gwirfoddoli ledled Cymru; symleiddio recriwtio / hyfforddiant / cyfathrebiadau a chymorth; darparu cynnig mwy cynhwysol/rhyng-genhedlaeth sy'n hwyluso ystod o brofiadau sy'n galluogi gwirfoddolwyr i symud rhwng prosiectau/partneriaid i ddiwallu'r anghenion a nodwyd.	£40,766.98
Y Groes Goch Brydeinig	Gwnaeth ymateb gwerthfawr cymunedau i bandemig Covid-19 ac argyfyngau mawr eraill amlygu'r angen i gydlynu gwirfoddolwyr yn effeithiol. Nod y prosiect yw cydlynu gwirfoddolwyr yn well wrth ymateb i argyfwng yng Nghymru drwy edrych ar bartneriaethau o fewn a rhwng y trydydd sector, y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Nod: fframwaith ar gyfer cael cydweithrediad gwell rhwng cyrff trydydd sector, sector preifat a sector cyhoeddus â dyletswyddau statudol i ymateb i argyfwng. Y canlyniad fydd fframwaith clir ar gyfer cydlynu gwirfoddolwyr ac adnoddau eraill ar bob lefel mewn argyfwng.	£32,035.60

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Cais am grant
Busnes yn y Gymuned	Cyfnewid Sgiliau: Pobl yw uchelgais uchelgeisiol Busnes yn y Gymuned (BITC) i gael busnesau, dros gyfnod o ddwy flynedd, i roi sesiynau hyfforddi wedi'u teilwra i 750 o chwilwyr gwaith sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan COVID-19. Bydd y sesiynau hyn yn gwella eu hyder, eu cymhwysedd a'u gallu i ail-ymuno â'r gweithlu wrth i economi Cymru adfer.	£49,549.02
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Nod y cynllun yw cynyddu'r cyfleoedd gwirfoddoli i gyflogeion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, gyda'r budd o ryddhau capasiti cyflogeion i gynorthwyo cymunedau a mudiadau gwirfoddol lleol. Diben y Cynllun yw cefnogi mudiadau gwirfoddol a gweithgareddau sy'n cyfrannu at les pobl yn ardal bwrdeistref sirol Caerffili.	£29,927.50
Cymdeithas Eryri Snowdonia Society	Mae ein gwaith mewn partneriaeth wedi newid yn ystod y 18 mis diwethaf. Mae partneriaid yn mynd ati fwyfwy i rannu systemau, arbenigedd, cyfrifoldebau a chapasiti staff. Mae hyn yn ein helpu ni i gyflwyno cyfleoedd gwirfoddoli yn fwy effeithiol, ar raddfa uwch ac yn strategol mewn ymateb i anghenion blaenoriaethol.	£101,193.85

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Cais am grant
	Rydyn ni'n barod i ehangu cwmpas ac uchelgais ein gwaith gyda'n gilydd.	
Mentrau Iaith Cymru*	Gweledigaeth: Y Gymraeg a Gwirfoddoli 2022: Cynyddu nifer y bobl sy'n gwirfoddoli i ddefnyddio'r Gymraeg drwy: gryfhau dealltwriaeth, datblygu systemau, cynyddu cyfleoedd, hyrwyddo cyfleoedd, a hynny ar y cyd a thrwy weithio mewn partneriaeth.	£40,000.00
Cyngor Sir Fynwy	Er mwyn adeiladu ar y dysgu rhwng partneriaid a llywio cymorth strategol ar gyfer gwirfoddoli ledled Sir Fynwy, bydd Cyngor Sir Fynwy a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn cryfhau'r Gymuned 'Be' er mwyn cefnogi dinasyddiaeth weithredol. Bydd y Gymuned 'Be' yn rhoi mynediad i wirfoddolwyr at y canlynol: rheoli a chymorth sy'n ymwneud â llywodraethu, prosiect datblygu a mentora dwys ar gyfer profi a datblygu prosiectau peilot arloesol a hyfforddiant am ddim i ddeall prosiectau lles yn well a'u cyflwyno. Bydd y tri cham o gymorth yn cael eu cynnig gan	£42,750.00

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Cais am grant
	amrywiaeth o bartneriaid, yn gweithio gyda'i gilydd i adeiladu dysgu lleol a gwella llesiant ledled y Sir.	
Multiple Sclerosis (MS) Society	Er mwyn adeiladu ar gyfleoedd gwirfoddoli newydd a grëwyd yn ystod y pandemig, bydd Llais Niwro yn sefydlu seilwaith strategol a chynaliadwy a arweinir gan wirfoddolwyr a fydd yn chwyddo llais ein cymuned ac yn gwella gwasanaethau iechyd a gofal. Bydd yn nodi anghenion gwasanaeth, yn ymwreiddio arferion gorau ac yn cynyddu gwydnwch ein cymuned yn ystod yr argyfyngau presennol a'r rhai i ddod.	£ 47,500.00
Partneriaeth Ogwen*	Crynodeb byr Nod y prosiect hwn yw datblygu gwasanaeth cymorth gweinyddol i fudiadau gwirfoddol yn Nyffryn Ogwen, er mwyn rhyddhau gwirfoddolwyr i ganolbwyntio ar weithgareddau craidd eu mudiadau. Dyma gais am arian cychwynnol i wneud gwaith cwmpasu a fydd yn nodi anghenion mudiadau lleol, a chyflwyno astudiaeth ddichonoldeb i Fwrdd Partneriaeth Ogwen.	£32,487.00
PLANED	Bydd 'CWBR Youth' yn datblygu sylfaen gyfredol o waith a gynhyrchwyd gan brosiect peilot CWBR, gyda chyllid	£33,827.20

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Cais am grant
	LEADER, ymhellach. Bydd y Prosiect yn ymhél pobl ifanc ag arferion democrataidd lleol yn eu cymuned, yn eu hannog i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw ac yn cynyddu cynrychiolaeth gynaliadwy o ieuenctid o fewn Cynghorau Tref a Chymuned.	
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Gan adeiladu ar waith a wnaed yn yr adroddiad 'Dyfodol Gwirfoddoli ym Mhowys', a'r Strategaeth Wirfoddoli, ein nod yw datblygu'r rhaglen a'r deunyddiau ar gyfer yr Ysgol Gwirfoddolwyr a Gofalwyr, o fewn yr Academi Iechyd a Gofal. Mae hwn yn ddull gweithredu arloesol o fewn Fframwaith Strategol Dyfodol y Gweithlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n targedu gwirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl fel rhan hanfodol a chyfartal o weithlu ein gwasanaethau iechyd a gofal ym Mhowys yn y dyfodol.	£44,150.00
Ymddiriedolaeth Elusennol Stephens a George	Gwirfoddolwyr a phartneriaid yn mynd ati'n strategol i godi lefelau llythrennedd pobl ifanc ym Merthyr Tudful	£33,862.64

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Cais am grant
The Centre For Building Social Action Limited	<p>Nod y prosiect yw cydgynllunio a pheilota Cynllun Gwirfoddoli Cyflogwyr gyda phartneriaid y sector preifat. Yn ymateb strategol i newidiadau a ragwelir mewn demograffeg gwirfoddoli, bydd cynllun llwyddiannus yn cynyddu lefel y gwirfoddolwyr ac yn hybu mwy o sgiliau ac adnoddau, gan alluogi CBSA i gyflawni ei genhadaeth o fynd i'r afael â thlodi ac anghyfiawnder cymdeithasol yn well.</p>	£43,833.89